



Adroddiad Arolygu

Cylch Meithrin Seiont a Pheblig

**Canolfan Noddfa
Cil Pablig
Caernarfon
LL55 2RS**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

08/10/2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Cylch Meithrin Seiont a Pheblig

Math o ofal a ddarperir	Gofal dydd plant Gofal dydd sesiynol
Darparwr cofrestredig	Cylch Meithrin Seiont a Pheblig
Lleoedd cofrestredig	26
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Arolygiad cyntaf ers cofrestru fis Mai 2019
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy

<u>Llesiant</u>	Nid oes angen sgôr
<u>Gofal a Datblygiad</u>	Nid oes angen sgôr
<u>Yr Amgylchedd</u>	Nid oes angen sgôr
<u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u>	Nid oes angen sgôr

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

Crynodeb

Mae hwn yn arolygiad a gynhaliwyd yn ystod y pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.

Mae plant yn hapus iawn ac yn mwynhau eu hunain yn llawn. Mae eu dewisiadau yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn datblygu'n dda drwy ystod eang o weithgareddau diddorol a chyffrous. Mae plant yn ddiogel, yn rhyngweithio'n dda, ac yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain.

Mae staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd gymwys. Maent yn rheoli rhyngweithiadau'r plant yn gadarnhaol ac mewn ffordd mae plant yn ei deall yn gyson. Mae staff yn brofiadol, yn adnabod y plant yn dda, ac yn eu cefnogi'n effeithiol yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan yr amgylchedd ofod ar gyfer y plant i symud yn rhydd; mae'n diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn drefnus, ac yn addas i oedrannau a chyfnodau datblygu'r plant. Mae detholiad helaeth o adnoddau amrywiol sydd wedi'u cynnal yn dda yn cefnogi chwarae a dysgu'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am arferion gofal plant presennol, sy'n sicrhau lefel dda o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau, sydd er budd y plant a'u teuluoedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig i gefnogi staff yn eu rolau ac mae ganddynt bartneriaethau cryf gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach.

Mae gan blant gyfleoedd cyffrous i wneud eu dewisiadau a phenderfyniadau eu hunain. Maent yn dewis yr adnoddau a'r ffrindiau maent eisiau chwarae gyda nhw yn frwdfrydig. Er enghraifft, mae llawenydd wrth i ddau ffrind eistedd ochr yn ochr ar droli pren a gwenu ar ei gilydd wrth i staff eu tynnu o gwmpas. Mae plant yn mynegi eu hunain yn hyderus a gwerthfawrogi eu penderfyniadau. Yn ystod amser byrbryd, maent yn cael dewis o lefrith neu ddŵr i'w yfed ac yn penderfynu dros eu hunain pan maent wedi cael digon i'w fwyta.

Mae plant wedi ymgartrefu yn llawn, yn deall y drefn ddyddiol, ac yn hollol gyfforddus gyda'u ffrindiau a staff. Maent oll yn ein cyfarch wrth i ni gyrraedd ac yn dweud 'helô' wrth iddynt gerdded heibio. Maent yn naturiol yn defnyddio hylif diheintio dwylo ar ôl gweithgareddau ac yn cerdded yn braf ochr yn ochr â'i gilydd wrth fynd o'r neuadd i'r ystafell chwarae. Mae plant yn teimlo sicrwydd pan maent yn gafael llaw aelod o staff ac wedi'u gwerthfawrogi pan mae staff yn gwrando ar beth sy'n eu poeni. O ganlyniad, maent yn fodlon ar barhau i chwarae gyda'u ffrindiau.

Mae rhyngweithiadau rhwng plant ac oedolion yn dda yn gyson ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Er enghraifft, nid oes unrhyw drafferth pan gaiff plant eu hatgoffa i rannu tegan mae dau ohonynt eisiau – maent yn gwrando, ac yn cytuno'n naturiol pwy geith chwarae gyntaf. Mae gan y plant ddiddordeb gweithredol yn eu chwarae a'u dysgu ac maent yn ymgysylltu â hwy. Maent yn gwrando ar gerddoriaeth i'w cadw'n heini yn frwdfrydig, yn chwerthin wrth iddynt oll berfformio'r 'jigl, wigl', ac yn gwneud eu gorau i ganu gyda'r caneuon sy'n cael eu chwarae. Mae plant yn eistedd yn braf yn ystod amser byrbryd, gyda rhai yn sgwrsio â'u ffrindiau a staff, ac mae pawb yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae gan blant ryddid sylweddol i archwilio eu hamgylchedd yn ddiogel a mwynhau'r gweithgareddau. Er enghraifft, yn yr awyr agored mae plant yn neidio i fyny ac i lawr gyda chyffro wrth iddynt chwarae pêl gyda'r bêl feddal pinc llachar. Maent yn canolbwyntio ar gydbwyso a cheisio troi eu hunain y tu mewn i'r disg chwarae ben i waered ac yn rhedeg yn y gwynt gan ddal cylchoedd o rubanau lliwiau llachar. Mae rhai plant yn dewis gêm wrando. Maent yn gwrando ar y synau sy'n cael eu chwarae ac yn paru'r sŵn â lluniau ar eu cardiau chwarae. Maent yn cael llawer o hwyl yn ymuno'n gwneud y synau. Wrth glywed yr offerynnau cerddorol yn cael eu dod allan i'w chwarae, mae bron pob un o'r plant yn gwneud eu ffordd yn gyflym drosodd i'r gweithgaredd ac yn dewis eu hoff offeryn. Drwy gydol ein hymweliad, roedd plant wedi ymgysylltu'n llawn yn eu gweithgareddau a ddewiswyd. Maent yn archwilio'n brysur ac yn mwynhau ystod sylweddol o brofiadau chwarae a dysgu.

Mae gan blant gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo yn briodol cyn bwyta ac yn helpu i wisgo eu cotiau i fynd allan i'r awyr agored i chwarae. Mae

plant yn datblygu'n greadigol ac maent yn llawn dychymyg. Er enghraifft, maent yn eistedd gyda'i gilydd yn gwneud lluniau ac maent wedi ymgolli'n llwyr yn eu storïau cogio yn y gornel cartref. Mae gan y plant gyfleoedd helaeth i ddatblygu eu hiaith wrth iddynt sgwrsio a chwarae'n rhydd gyda'i gilydd a staff.

Gofal a Datblygiad

Nid oes angen sgôr

Mae staff yn deall polisiâu'n llawn ac yn eu gweithredu'n gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Mae staff yn gwybod y gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai ganddynt bryderon am blentyn, yn unol â'u polisi diogelu. Maent yn hyrwyddo iechyd a hylendid da yn llwyddiannus, gan sicrhau eu bod yn dilyn a chadw cofnodion ysgrifenedig yn unol â gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae staff yn sicrhau bod plant yn cael byrbrydau iach gyda dŵr neu lefrith i'w yfed. Fel rhan o reoli COVID-19, maent yn gwisgo masgiau a ffedogau tafladwy drwy gydol pob sesiwn. Mae staff yn cadw cofnodion ysgrifenedig o ddamweiniau a digwyddiadau, sy'n cael eu llofnodi gan rieni i gydnabod eu bod wedi'u hysbysu. Maent yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau effeithiol yn gyson. Er enghraifft, maent yn cadw cofnod o unrhyw absenoldebau a achosir gan salwch fel bod adroddiad manwl gywir ar gael pe byddai ei angen gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae staff yn sicrhau bod plant yn cael digon o ymarfer corff un ai yn yr awyr agored neu yn y brif neuadd.

Mae staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Maent oll yn enghreifftiau da ac yn siarad â phlant yn glên, ar eu lefel nhw ac mewn iaith maent yn ei deall. Mae staff yn cydnabod rhyngweithiadau cadarnhaol yn gyflym. Maent yn canmol plant yn fawr am eu cyflawniadau, am rannu adnoddau, ac am ddangos cwrteisi. Pan fo angen, mae staff yn defnyddio difyrwch yn effeithiol, sy'n cadw plant yn hapus ac yn caniatáu i weithgareddau chwarae redeg yn llyfn.

Mae staff yn gweithredu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a, thrwy olrhain cynnydd y plant, maent yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu. Mae staff yn cynnal cofnodion ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol ac yn dilyn cynlluniau dysgu yn ôl yr angen. Mae asesiadau penodol a gwblheir pan fydd plant yn cychwyn yn penderfynu p'un a oes angen cymorth gyda'u hiaith a lleferydd. Mae staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol ac amrywiol ac yn gwneud dysgu'n hwyl. Er enghraifft, mae staff yn chwervthin a gwenu ochr yn ochr â'r plant pan maent oll yn canu a dawnio. Maent yn gweithio'n eithriadol o dda fel tîm, gan sicrhau bod sesiynau dysgu'n llifo'n naturiol o un i'r llall. Mae staff yn gwneud eu gorau glas dros y plant i sicrhau eu bod yn ffynnu ac yn dysgu drwy chwarae.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelach a lles y plant. Mae asesiadau risg ar waith ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae yna fesurau rheoli heintiau i reoli COVID-19, gan gynnwys trefniadau i ymwelwyr eu dilyn. Er enghraifft, gofynnwyd i ni wisgo cyfarpar diogelu personol, mewngofnodi ac allgofnodi, a defnyddio'r gel gwrthfacterol yn y brif fynedfa ac eto cyn mynd i mewn i'r ystafell chwarae. Caiff drysau eu gadael ar agor i gadw awyr iach yn cylchredeg ac mae monitor ocsigen yn sicrhau bod ansawdd yr aer dan do yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cadw'r safle yn ddiogel a glân ac mewn cyflwr da. Mae pob drws sy'n arwain i'r awyr agored wedi'i gloi ac mae'r maes chwarae yn yr awyr agored wedi'i ffensiō'n addas ac yn amgaaedig. Mae cofnodion ymarfer tân yn dangos bod staff a phlant yn ymarfer trefniadau mewn argyfwng yn ystod y flwyddyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan yr amgylchedd ofod ar gyfer y plant i symud yn rhydd; mae'n diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Er enghraifft, mae'r brif neuadd a'r ardaloedd yn yr awyr agored, a ddefnyddir yn ddyddiol, yn hyrwyddo ystod o sgiliau corfforol a dysgu. O dan do, mae yna gorneli dychymyg a chreadigol yn ogystal ag ardaloedd lle gall plant eistedd ac ymlacio. Mae gallu cael mynediad at y cyfleusterau toiled a golchi dwylo ar eu pen eu hunain yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar i blant ac maent yn teimlo ymdeimlad o berthyn. Caiff lluniau o'r plant eu harddangos ar wal yr ystafell chwarae, mae ganddynt eu pegiau lefel isel eu hunain i hongian eu heiddo, a chaiff gwaith crefft ei arddangos. Mae cynllun a dyluniad yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored yn hyrwyddo chwarae a dysgu plant.

Mae yna ddewis helaeth o adnoddau glân mewn cyflwr da, sy'n herio ac ysgogi chwilfrydedd a diddordeb y plant. Er enghraifft, mae'r plant yn dysgu sut i ddringo, cydbwyso, bod yn greadigol a defnyddio eu synhwyrâu. Mae gan weithgareddau i annog plant i fod yn llawn dychymyg bopeth sydd ei angen. Er enghraifft, mae gan y gornel gartref dan do a chegin fwd yn yr awyr agored bopeth sydd ei angen ar blant i chwarae cogio lle caiff eu straeon cogio eu hactio. Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau wedi'u gwneud o adnoddau cynaliadwy gydag ystod eang o deganau ac offer pren. Ychwanegiad newydd yw'r boncyffion a bwrdd lefel isel yn yr awyr agored ar gyfer eistedd gyda'i gilydd fel grŵp. Drwy gydol y gwasanaeth, mae yna ddigonedd o deganau ac offer addas a phriodol o ran oedran i gynnal ac annog diddordeb plant mewn chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau ac maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol. Er enghraifft, maent yn prosesu'r hysbysiadau perthnasol pan fo angen ac wedi cwblhau gwaith papur diweddar gan AGC ar-lein fel y gofynnwyd amdano. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth i rieni am y gwasanaeth fel y gallant wneud penderfyniad o ran p'un a yw'n addas i'w hanghenion nhw a'u plant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ddealltwriaeth ragorol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg yn llawn gan fod staff yn rhugl yn yr iaith a'r holl bolisiau, gweithdrefnau a gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hyrwyddo arferion diogel. Maent yn sicrhau bod polisiau yn canolbwyntio ar anghenion y plant a'u bod yn cael eu diweddarau pan fo angen, eu deall gan y staff, a'u gwneud ar gael i rieni. Er enghraifft, gwelsom rieni yn dilyn y rheol COVID-19 newydd wrth gasglu eu plentyn ar ddiwedd y sesiwn. Roedd hon ar waith ers i'r gwasanaeth ailagor yn dilyn y cyfyngiadau symud ac roedd yn gweithio'n dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ceisio awgrymiadau plant a'u rhieni ac yn eu gweithredu'n effeithiol. Er enghraifft, roedd amser byrbryd wedi'i aildrefnu i fodloni dymuniadau'r plant, a oedd am eistedd gyda'i gilydd yr un pryd yn hytrach na chymryd troeon. Mae gan hyn fuddion sylweddol ar gyfer rhai plant, sydd bellach yn bwyta'r holl fyrbrydau iach a roddir iddynt. Roedd holiaduron rhieni yn hynod ganmoliaethus o'r gwasanaeth y maen nhw a'u plant yn ei dderbyn. Cadarnhaodd rhieni y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt gydberthynas da gyda'r holl staff a'u bod yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a gwnaethant sylwadau ar ba mor dda roedd eu plant wedi datblygu ers mynychu. Mae llawer o welliannau ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys prynu teganau ac offer a chyflwyno gweithdrefnau rheoli heintiau effeithiol. Roedd gwelliannau a drefnwyd ar gyfer y dyfodol yn cynnwys datblygu'r ardal chwarae yn yr awyr agored fel y gall plant dreulio hyd yn oed mwy o amser yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cael ei fodelu gan arweinwyr. Er enghraifft, mae'r unigolyn â gofal ar hyn o bryd yn mynychu sesiynau wythnosol ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a sut y bydd hon yn cael ei defnyddio o fewn y gwasanaeth. Gwelwyd matrices a oedd yn dangos bod gan yr holl staff dystysgrifiadau cymorth cyntaf cyfredol a bod y rhan fwyaf wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant yn ystod ein hymweliad. Roedd yr holl staff yn dal tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r tîm staff yn gryf ac, o ganlyniad, nid oedd unrhyw newidiadau staff wedi digwydd ers yr ymweliad arolygu diwethaf, pan welsom ffeiliau staff boddhaol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn derbyn arfarniad blynyddol. Cânt eu cadw'n hysbys â'r arferion cyfredol. Maent yn cyfarfod bob dydd gyda'r unigolyn â gofal ac yn mynychu cyfarfodydd staff. Er nad oedd cyfarfodydd goruchwyllo gyda staff wedi'u cofnodi, gwnaethom dderbyn cadarnhad, ar ôl yr arolygiad, fod yr unigolyn â gofal eisoes wedi cychwyn cadw nodiadau ysgrifenedig. Drwy gydol ein

hymweliad, gwelsom fod y tîm staff cyfan yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd a'u bod yn hapus, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn mwynhau eu rolau. Mae hyn yn ei dro yn gwella canlyniadau ar gyfer plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn arloesol ac yn hollol gynhwysol. Er enghraifft, gan na allai rhieni fynychu'r gwasanaeth yn ystod cyfyngiadau COVID-19, anfonodd yr unigolyn â gofal fideo wedi'i recordio o'r ffordd roedd yr ystafelloedd wedi'u gosod a'r gweithgareddau oedd ar gael i'w plant. Gwnaeth yr unigolyn â gofal hefyd gynnal cyfarfodydd rhithwir gydag athrawon arfaethedig y plant cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol amser llawn. Gyda chaniatâd y rhieni, rhoddodd hyn gyfle i'r unigolyn â gofal sicrhau bod anghenion a dewisiadau pob plentyn yn cael eu rhannu'n briodol. Gwelsom negeseuon gan rieni i'r unigolyn â gofal a oedd yn dweud faint oeddent wedi mwynhau dod at ei gilydd yn ddiogel i godi arian yn ystod taith gerdded noddedig ddiweddar. Roedd staff hefyd wedi tynnu lluniau o'r plant yn gafael tystysgrif yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau'r daith gerdded yn llwyddiannus a'u hanfon at y rhieni. Mae'r rhain yn enghreifftiau effeithiol o ba mor dda mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gweithwyr proffesiynol er budd y plant. Drwy deithiau cerdded lleol rheolaidd, mae'r plant yn dechrau dysgu am y gymuned ehangach.

Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Dylid cadw cofnodion o'r cyfarfodydd goruchwylio unigol rheolaidd gyda staff.

Meysydd i'w gwella a champau gweithredu yn ystod yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Cyflawnwyd

Meysydd i'w gwella a champau gweithredu yn ystod yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Ni chyflawnwyd

Dim	
-----	--

Meysydd lle mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim	
-----	--

Meysydd lle mae angen gwelliannau

Dim	
-----	--

Dyddiad cyhoeddi 15/12/2021